Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

the latest from
# the newsroom


## Welcome to the Awel y Môr Newsletter.

February 2021

### A message from Tamsyn Rowe, the Project Manager



This is our first project newsletter – welcome! I would like to take this opportunity to update you on the latest Awel y Môr developments but first and foremost, I'd like to thank each and every one of you who took the time to visit and take part in our virtual consultation. Your feedback has been noted and your enthusiasm for this project to deliver sustainable jobs locally was particularly encouraging. Almost 90% of you stated that you felt this project was important in meeting Wales' green energy goals and you shared a large amount of valuable information. Your input has fed into our most recent site selection. We thank you for your valuable feedback. We will keep engaging with you as we progress and plan to host a further public consultation later this year.




Awel y Môr Virtual Consultation Room

### Virtual consultation update

In November 2020, Awel y Môr Offshore Wind Farm launched its online consultation to provide local residents, businesses, communities and other interested parties with the opportunity to find out about the proposed wind farm. Ordinarily, this would have taken place face to face in and around North Wales, but due to the Covid-19 pandemic this was not possible. As well as introducing the plans, the project was seeking feedback on the infrastructure needed to connect the wind farm to the national

grid. This includes the offshore and onshore cable routes, the landfall location and the proposed area for a new substation at St Asaph (collectively referred to as our 'Transmission Infrastructure).

With a new virtual approach our aim was for the consultation to be as far reaching as possible. With this in mind media releases were issued, the power of social media was utilised, adverts were placed in The Daily Post, and local MPs, MSs, authority leaders, community councils and project stakeholders were informed.

A decision was made to extend the virtual consultation period until 13th December following stakeholder consultation which led to one of the onshore cable corridor options being updated. The virtual exhibition was re-advertised and ran for six weeks in total.

Over 1,100 unique visits were made to the consultation portal throughout the six week period and over 130 of you shared your views with us either by completing a feedback form or emailing us directly. Thank you! Your feedback will help us shape the project designs and this will be outlined in our consultation report as part of the project's application. You will also be able to see how the project has evolved in a Preliminary Environmental Information Report which will be made available later this year.

## Awel y Môr's transmission infrastructure site selection

Taking on board valuable feedback received during the public consultation along with technical and environmental studies and statutory stakeholder consultation, we have been able to select a preferred corridor for the transmission infrastructure. This is the route within which Awel y Môr's electricity cables and substation would be located.

It would start at the offshore wind farm out at sea and end at the substation in St Asaph where the electricity would feed into the National Grid. The eastern offshore cable corridor which runs between the existing Gwynt y Môr and Rhyl Flats cables has been selected. These cables would meet the land east of Rhyl and travel west of Rhuddlan and then south to St Asaph. The preferred substation zone is located west of the National Grid's existing 400kV substation at St Asaph. The maps below show the preferred cable corridors, landfall and substation zones.

Now we have selected a corridor we will carry out further technical and environmental studies, as well as talking with landowners. This will help us to refine down options and develop the details of the route for our consent application.

## Next Steps


The selection of the preferred cable corridors, landfall area and substation zone is the result of over a year's technical work, discussions with specialists and community and stakeholder consultation. The next task is for the team to further refine these areas and we will be talking to interested parties as we do so. We will also develop the proposed plans for the offshore wind farm layout known as the array. Details on these developments will be included in a Preliminary Environmental Information Report which will be available for consultation later this year. This will be advertised widely to encourage as many people as possible to make their views known.

If you have any comments or queries about the project you don't need to wait for our next consultation. Please feel free to contact us at any time.


Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

## Preferred offshore cable corridor and landfall





## Preferred onshore cable corridor



Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

## Preferred substation zone




## Planned timeline

| | |
|---|---|
| Summer 2019 | Passed the Crown Estate's Plan Level Habitats Regulations Assessment (HRA) allowing the project to progress to securing an Agreement for Lease |
| Summer 2020 | Agreement for Lease signed with the Crown Estate which allows RWE to start to develop and seek consent for the project |
| Autumn 2020 | Ongoing surveys and public consultation |
| 2021 | Ongoing project design and further environmental surveys |
| 2021 | Formal statutory public consultation and publication of our Preliminary Environmental Information Report |
| 2022 | Submit applications for a Development Consent Order to the Planning Inspectorate and for a Marine Licence to Natural Resources Wales |
| 2023-24 | Decision on the Development Consent Order and Marine Licence |
| 2030 | Subject to the project securing a development consent, it is expected that the wind farm could be operational by 2030 |

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

y diweddaraf o'r
# ystafell newyddion


## Croeso i Gylchlythyr Awel y Môr.

Chwefror 2021

### Neges gan Tamsyn Rowe, y Rheolwr Prosiect



Dyma gylchlythyr cyntaf ein prosiect – croeso! Hoffwn gymryd y cyfle hwn i roi'r diweddaraf i chi ar ddatblygiadau Awel y Môr ond yn gyntaf oll, diolch i bob un ohonoch wnaeth gymryd o'ch amser i ymweld a chymryd rhan yn ein hymgynghoriad rhithwir. Rydym wedi nodi'ch adborth ac roedd eich brwdfrydedd dros sicrhau bod y prosiect yn creu swyddi cynaliadwy'n lleol yn galonogol tu hwnt. Dywedodd bron 90% ohonoch eich bod yn credu bod y prosiect yn bwysig o ran bwrw targedau ynni gwyrdd Cymru, a chafodd llawer iawn o wybodaeth werthfawr ei rhannu. Mae eich mewnbwn wedi cyfrannu at ein gwaith dewis safle diweddar. Diolch i chi am eich adborth gwerthfawr. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chi wrth i ni fwrw ymlaen, a bwriadwn gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall eleni.



Ystafell Ymgynghori Rithwir Awel y Môr

### Diweddariad ar yr ymgynghoriad rhithwir

Ym mis Tachwedd 2020, lansiodd Ffarm Wynt Alltraeth Awel y Môr ei hymgynghoriad ar-lein er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr, busnesau a chymunedau lleol, a phartïon eraill â diddordeb ddysgu mwy am y ffarm wynt arfaethedig, Fel arfer, byddai hyn wedi digwydd wyneb yn wyneb yng ngogledd Cymru, ond nid oedd yn bosib oherwydd pandemig Covid-19. Yn ogystal â chyflwyno'r cynlluniau, roedd y prosiect yn ceisio adborth ar y seilwaith sydd ei angen i gysylltu'r ffarm wynt â'r grid cenedlaethol. Mae

hyn yn cynnwys llwybrau ceblau alltraeth ac atraeth, lleoliad golwg y tir a'r ardal arfaethedig ar gyfer isbwerdy newydd yn Llanelwy (mae'r rhain oll yn cael eu galw yn 'Seilwaith Trosglwyddo').

Gydag ymagwedd rithwir newid, ein nod oedd sicrhau bod yr ymgynghoriad mor bellgyrhaeddol â phosib. Gyda hyn mewn cof, cafodd datganiadau i'r wasg eu cyhoeddi, defnyddiwyd grym y cyfryngau cymdeithasol, rhoddwyd hysbysebion yn y Daily Post a rhoddwyd gwybod i ASau, ASCau lleol, arweinwyr awdurdod, cynghorau cymuned a rhanddeiliaid prosiect.

Penderfynwyd ymestyn y cyfnod ymgynghori rhithwir tan 13 Rhagfyr yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid wnaeth arwain at ddiweddaru un o'r opsiynau ar gyfer coridor ceblau atraeth. Cafodd yr arddangosfa rithwir ei hysbysebu unwaith eto, ac roedd ar agor am chwe wythnos i gyd.

Cafwyd dros 1,100 o ymweliadau unigryw i'r porth ymgynghori gydol y cyfnod chwe wythnos, a rhannodd dros 130 ohonoch eich barn gyda ni un ai drwy lenwi ffurflen adborth neu e-bostio ni'n uniongyrchol. Diolch i chi! Bydd eich adborth yn ein helpu i lywio dyluniadau'r prosiect, a bydd hyn yn cael ei amlinellu yn ein hadroddiad ymgynghoriad yn rhan o gais y prosiect. Byddwch hefyd yn gallu gweld sut mae'r prosiect wedi esblygu mewn Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Cychwynnol fydd ar gael yn nes ymlaen eleni.

## Dewis safle seilwaith trosglwyddo Awel y Môr

Gan ystyried adborth gwerthfawr gafodd ei rannu yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, ochr yn ochr ag astudiaethau technegol ac amgylcheddol ac ymgynghoriad rhanddeiliaid statudol, rydym wedi gallu dewis coridor dewisol ar gyfer y seilwaith trosglwyddo. Dyma'r llwybr ble byddai ceblau trydan ac isbwerdy Awel y Môr yn cael eu lleoli.

Byddai'n dechrau ar y ffarm wynt alltraeth yn y môr ac yn dod i ben yn yr isbwerdy yn Llanelwy, ble byddai'r trydan yn bwydo i mewn i'r Grid Cenedlaethol. Mae'r coridor ceblau alltraeth dwyreiniol rhwng safle presennol Gwynt y Môr a cheblau Gwastadeddau'r Rhyl wedi cael ei ddewis. Byddai'r ceblau hyn yn cwrdd ar dir i'r dwyrain o'r Rhyl ac yn teithio tua'r gorllewin o Ruddlan, ac yna tua'r de i Llanelwy. Mae'r parth isbwerdy dewisol wedi'i leoli tua'r dwyrain o isbwerdy 400kV presennol y Grid Cenedlaethol yn Llanelwy. Mae'r mapiau isod yn dangos y coridorau ceblau dewisol, golwg y tir a'r parthau isbwerdy.

Nawr ein bod wedi dewis coridor, byddwn yn cynnal astudiaethau technegol ac amgylcheddol pellach, yn ogystal â thrafod â pherchnogion tir. Bydd hyn yn ein helpu i fireinio opsiynau a datblygu manylion y llwybr ar gyfer ein cais am ganiatâd.


## Camau Nesaf

Mae dewis y coridorau ceblau dewisol, yr ardal golwg y tir a'r parth isbwerdy o ganlyniad i dros flwyddyn o waith technegol, trafodaethau gydag arbenigwyr ac ymgynghoriad â'r gymuned a rhanddeiliaid. Y dasg nesaf i'r tîm yw mireinio'r meysydd hyn ymhellach, a byddwn yn trafod â phartïon â diddordeb wrth wneud. Byddwn hefyd yn datblygu'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer gosodiad y ffarm wynt alltraeth, sy'n cael ei alw'n arae. Bydd manylion ar y datblygiadau hyn ar gael mewn Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Cychwynnol fydd ar gael ar gyfer ymgynghori'n nes ymlaen eleni. Bydd yn cael ei hysbysebu'n helaeth er mwyn annog cymaint o bobl â phosib i fynegi barn.
Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau am y prosiect, does dim angen aros tan yr ymgynghoriad nesaf. Cysylltwch â ni ar bob cyfrif unrhyw bryd.

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

## Coridor ceblau alltraeth dewisol a golwg y tir





## Coridor ceblau atraeth dewisol




## Parth isbwerdy dewisol

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru




## Amserlen fwriedig

| | |
|---|---|
| Haf 2019 | Pasio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Lefel Cynllun Ystâd y Goron (HRA) wnaeth alluogi'r prosiect i symud ymlaen at sicrhau Cytundeb ar gyfer Les |
| Haf 2020 | Cytundeb ar gyfer Les yn cael ei lofnodi gydag Ystâd y Goron, sy'n galluogi RWE i ddechrau datblygu a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer y prosiect |
| Haf 2020 | Arolygon parhaus ac ymgynghoriad cyhoeddus |
| 2021 | Gwaith dylunio'r prosiect parhaus a rhagor o arolygon amgylcheddol |
| 2021 | Ymgynghoriad cyhoeddus statudol ffurfiol a chyhoeddi Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Cychwynnol |
| 2022 | Cyflwyno ceisiadau am Orchymyn Caniatâd Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio, ac ar gyfer Trwydded Forol i Gyfoeth Naturiol Cymru |
| 2023-24 | Penderfyniad ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu a'r Drwydded Forol |
| 2030 | Yn amodol ar y prosiect yn cael caniatâd datblygu, disgwylir i'r ffarm wynt fod yn weithredol erbyn 2030 |